# Amserlen Penderfyniadau

## Panel Trwyddedu (Tacsi)

**I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD**

**Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 6 Mehefin 2019**

Gwnaeth y Panel Trwyddedu Tacsis y penderfyniadau canlynol ar 4 Mehefin 2019, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: D Davies (Cadeirydd), J Hughes, J Cleverly, T Suller, Y Forsey, M Kellaway

**Rhan 2**

**Eitemau Eithriedig neu Gyfrinachol**

Mae'r eitemau canlynol yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Felly, nid yw adroddiadau a phapurau cefndir sy'n ymwneud â'r penderfyniadau hyn i'w cyhoeddi ac maent yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf fel y maent yn ymwneud â chylchrediad i'r wasg a'r cyhoedd.

**LIC PAN 06/19**

**Trwyddedau Llogi Preifat / Cerbydau Hacni**

**Penderfyniad**

Rhoddodd y Panel Tacsis ystyriaeth ofalus i'r ceisiadau perthnasol a gwnaed y penderfyniadau canlynol:

1. Gyrrwr AK

   Rhoddodd aelodau'r Panel ystyriaeth ofalus i'r cais ger eu bron a phenderfynodd y Panel gyflwyno Trwydded i AK, fodd bynnag, rhaid iddo gymryd y Cwrs Pass Plus

2. Gyrrwr JH

   Rhoddodd aelodau'r Panel ystyriaeth ofalus i'r dystiolaeth a roddwyd ger eu bron a theimlai'r Panel nad oedd JH yn cymryd perchnogaeth o'i weithredoedd. Fe wnaeth fychanu ei ymddygiad, nid oedd yn ymddangos bod ganddo ddealltwriaeth o'i weithredoedd na pham yr oedd gerbron y Panel Trwyddedu. Mae ganddo rybudd am drais domestig tuag at ei wraig. Mae wedi dangos anonestrwydd wrth ailymgeisio am ei drwydded (tudalennau 18-20). Penderfynodd y Panel nad yw JH yn berson addas a phriodol i yrru tacsi Dinas Casnewydd. Yn seiliedig ar y dystiolaeth o'u blaenau penderfynodd aelodau'r Panel ddiddymu ei Drwydded.

3. Gyrrwr OA

Rhoddodd aelodau'r Panel ystyriaeth ofalus i'r dystiolaeth a roddwyd ger eu bron a phenderfynodd na fyddent yn dyfarnu Trwydded Gyrrwr Hurio Preifat i OA.

4. Gyrrwr MM

Ni ddaeth yr ymgeisydd i'r cyfarfod.

**Ymgynghoriad**

Ddim yn berthnasol.
**Gweithredir gan:** Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio
**Amserlen Weithredu:** Ar unwaith